Y Comisiwn Etholiadol

Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 3 Mawrth 2011

# Gweinyddu'r refferendwm

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu cyfarwyddiadau'r Prif Swyddog Cyfrif i Swyddogion Cyfrif

## Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ynghylch cael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu ar ffurf fersiwn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

Ffôn testun: 18001 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

# 1 Trosolwg

1.1 Mae gan refferendwm a gynhelir o dan y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) strwythur rheolaeth ac atebolrwydd gwahanol i unrhyw etholiad. Mae'n ofynnol cael Prif Swyddog Cyfrif, a fydd yn gyfrifol am ardystio'r canlyniad cyffredinol. Cadeirydd y Comisiwn Etholiadol, Jenny Watson, fydd y Prif Swyddog Cyfrif yn y refferendwm hwn.

1.2 Mae'r Prif Swyddog Cyfrif wedi cyhoeddi cyfres o ddogfennau cyfarwyddyd i'ch cynorthwyo chi, fel Swyddog Cyfrif, i gyflawni eich swyddogaethau a sicrhau cysondeb ymarfer wrth weithredu ar y refferendwm. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn cyfeirio at eich dyletswyddau dan Orchymyn Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad) (Cwestiwn y Refferendwm, Dyddiad y Refferendwm etc.) 2010 (Gorchymyn Refferendwm CCC) ac maent yn cynnwys cyfarwyddiadau a gyhoeddir gan y Prif Swyddog Cyfrif dan Erthygl 11(1) o'r Gorchymyn hwnnw. Fel Swyddog Cyfrif mae'n ddyletswydd arnoch i gyflawni eich swyddogaethau dan y Gorchymyn Refferendwm CCC yn unol â'r cyfarwyddiadau hyn.[1]

1.3 Mae cyfarwyddiadau'r Prif Swyddog Cyfrif yn cael eu gosod allan ar gychwyn pob modiwl cyfarwyddyd a hefyd maent yn ymddangos yn y blychau ar ddechrau pob pennod. Rydych yn cael eich cyfarwyddo'n ffurfiol gan y Prif Swyddog Cyfrif i ddilyn y cyfarwyddiadau hyn. Hefyd pryd bynnag y mae'r cyfarwyddiadau'n nodi fod 'rhaid' cwblhau tasg, mae hyn yn gyfarwyddyd.

1.4 Mae'r cyfarwyddiadau hefyd yn cynnwys ymarfer a argymhellir ('dylid') a gwybodaeth gefndir, ill dau wedi eu cynnwys i'ch cynorthwyo i ddeall a chyflawni eich dyletswyddau. Nid yw'r ymarfer a argymhellir, y wybodaeth gefndir na'r cyfeiriadau deddfwriaethol yn cael eu cyhoeddi fel cyfarwyddiadau ffurfiol.

1.5 Mae Swyddogion Cyfrif yn bersonol gyfrifol am y modd y cynhelir y refferendwm yn eu hardal ac am gydymffurfio â holl gyfarwyddiadau'r Prif Swyddog Cyfrif.[2] Am y rheswm hwn, bydd angen i chi feddwl yn ofalus ynglŷn â'r modd y bydd cyfarwyddiadau'r Prif Swyddog Cyfrif yn gweithio yn eich ardal leol.

1.6 Os ydych yn ystyried, fel Swyddog Cyfrif, fod gennych reswm cyfreithlon dros beidio â dilyn y cyfarwyddiadau hyn, rhaid i chi wneud cais yn uniongyrchol i'r Dirprwy Brif Swyddog Cyfrif am eithriad. Dim ond os caniateir yr eithriad hwn y gellir gwyro oddi wrth y cyfarwyddiadau hyn. Bydd y Prif Swyddog Cyfrif yn

---

[1] Erthygl 11(2), Gorchymyn Refferendwm CCC.
[2] Erthyglau 10(4) a 11(2), Gorchymyn Refferendwm CCC.

cytuno â’r Dirprwy Brif Swyddog Cyfrif ynglŷn â’r modd y dylid ystyried eithriadau a pha ffactorau y dylid eu hystyried wrth ddod i’w benderfyniadau.

1.7 Ategir y dogfennau cyfarwyddyd hyn â set o adnoddau, y gellir cael mynediad atynt ar wefan y Comisiwn [dolen i ddilyn yn fuan]. Pan fo’r Prif Swyddog Cyfrif wedi cyfarwyddo defnyddio adnodd neilltuol, dywedir hyn yn eglur yn y crynodeb o’r cyfarwyddiadau ar ddechrau’r modiwl cyfarwyddyd ac yn y blwch cyfarwyddiadau ar gychwyn pob pennod berthnasol.

# 2 Cyfarwyddiadau

2.1 Mae'r modiwl hwn yn cynnwys y tasgau penodol sydd raid i chi eu gwneud i baratoi ar gyfer y bleidlais er mwyn sicrhau fod y refferendwm yn cael ei weinyddu'n gyson ac effeithiol ar draws Cymru.

2.2 Rhaid i chi ddilyn y cyfarwyddiadau a roddir isod. Ategir y cyfarwyddiadau hyn gan argymhellion pellach a ddarperir yn adrannau 3–8 y ddogfen hon.

### Pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio [dolen i ddilyn yn fuan]

Penodi a hyfforddi holl staff ac arolygwyr gorsafoedd pleidleisio:

- Penodwch yr holl staff gorsafoedd pleidleisio erbyn 13 Ionawr 2011 (ac eithrio unrhyw staff amnewidiol a ddynodir yn angenrheidiol ar ôl yr amser hwnnw).
- Hyfforddwch holl staff y gorsafoedd pleidleisio erbyn 25 Chwefror 2011 (ac eithrio unrhyw staff amnewidiol a ddynodir yn angenrheidiol ar ôl yr amser hwnnw). Rhaid darparu hyfforddiant i staff amnewidiol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl eu penodi.
- Rhaid i staff gorsafoedd pleidleisio fynychu sesiwn hyfforddiant wyneb-yn-wyneb.
- Fel lleiafswm bydd raid rhoddi sylw, yn eich sesiwn hyfforddiant i staff gorsafoedd pleidleisio, i'r meysydd hynny y cyffyrddir â nhw yn nhempled cyflwyniad PowerPoint y Comisiwn [dolen i ddilyn yn fuan].
- Sicrhewch fod arolygwyr gorsafoedd pleidleisio yn derbyn yr un hyfforddiant â staff gorsafoedd pleidleisio fel bod modd eu defnyddio'n hyblyg a gwneud dyletswyddau gorsaf bleidleisio petai raid.
- Rhowch gyfarwyddyd ychwanegol i arolygwyr gorsafoedd pleidleisio, yng nghyswllt eitemau sy'n benodol i'w swyddogaeth.
- Rhowch gopi o lawlyfr gorsaf bleidleisio'r Comisiwn a chanllawiau cyflym i holl staff gorsafoedd pleidleisio ac arolygwyr [dolen i ddilyn yn fuan].
- Sicrhewch fod yr holl staff gorsafoedd pleidleisio ac arolygwyr yn derbyn rhifau cysylltu, gan gynnwys rhif cyswllt yr heddlu, i'w defnyddio pe cyfyd unrhyw broblem.
- Rhowch gyfarwyddiadau i arolygwyr gorsafoedd pleidleisio yng nghyswllt eu swyddogaeth a rhestr wirio o dasgau i'w cyflawni.

Sicrhewch y byddwch yn gallu defnyddio'r gorsafoedd pleidleisio'n hyblyg, ar y dydd:

- Rhaid i'ch cynlluniau fod yn ddigon hyblyg fel bod modd defnyddio staff i ymateb i faterion penodol a allai godi trwy gydol diwrnod y bleidlais.
- Rhaid hyfforddi'r Clercod Pleidleisio a'r Swyddogion Llywyddu fel bod y naill gyda'r wybodaeth dechnegol i gyflawni, petai raid, rolau'r llall.

Sicrhewch fod proses yn ei lle i gyfathrebu unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r cofrestri gorsaf bleidleisio ac i'r rhestrau dirprwyon fel yr hysbyswyd gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol.

Gwirio a pharatoi'r holl offer a'r holl ddeunyddiau gorsaf bleidleisio:

- Gwiriwch fod holl offer yr orsaf bleidleisio yn addas i'r pwrpas a bod gennych gyflenwad digonol.
- Sicrhewch fod unrhyw offer ychwanegol sy'n angenrheidiol i ddarparu mynediad i'r orsaf bleidleisio yn cael ei ddanfon a'i osod yn ei le mewn da bryd ar gyfer agor yr orsaf.
- Dyrannwch bapurau pleidleisio i'r gorsafoedd pleidleisio yn seiliedig ar 100% o'r etholwyr cymwys yn troi allan (h.y. yr holl etholwyr hynny sydd â'r hawl, yn bersonol, i bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio).
- Sicrhewch fod y rhifau ar y papurau pleidleisio a ddyrannwyd i bob gorsaf bleidleisio yn rhedeg yn olynol mewn trefn.
- Cymerwch bob cam angenrheidiol i sicrhau bod staff gorsafoedd pleidleisio yn ymwybodol o dan ba amgylchiadau y mae modd rhyddhau papurau pleidleisio a anfonwyd.
- Sicrhewch fod staff gorsafoedd pleidleisio yn ymwybodol o dan ba amgylchiadau i anfon papurau pleidleisio a gyflwynwyd.
- Sicrhewch fod yr hysbysiadau 'Canllawiau i bleidleiswyr' a'r 'Cyfarwyddiadau i bleidleiswyr' yn cael eu dylunio a'u hargraffu gan ddefnyddio templedi'r Comisiwn [dolen i ddilyn yn fuan].
- Sicrhewch fod gan yr arolygwyr gorsafoedd pleidleisio bob amser gopïau wrth gefn o lawlyfrau gorsaf bleidleisio a chyfarwyddiadau cyflym, papurau pleidleisio, offer, papur swyddfa ac eitemau eraill megis ffurflenni, amlenni a chopïau o'r gofrestr etholwyr rhag ofn y bydd prinder neu eitemau ar goll.
- Paratowch gofnod gorsaf bleidleisio i staff y gorsafoedd pleidleisio gofnodi unrhyw broblemau neu anghysonderau.
- Sicrhewch fod yr holl offer a'r holl ddeunyddiau gorsaf bleidleisio yn barod i'r Swyddogion Llywyddu eu casglu neu i'w hanfon i orsafoedd pleidleisio erbyn 1 Mawrth 2011.

Rheoli'r pleidleisiau post a ddychwelir i'r gorsafoedd pleidleisio:

- Darparwch o leiaf ddau becyn i bleidleisiau post a dderbynnir yn y gorsafoedd pleidleisio.
- Rhaid nodi'n glir ar y pecynnau eu bod yn cynnwys pleidleisiau post a nodi hefyd enw'r orsaf bleidleisio a'r dynodydd yn yr orsaf bleidleisio.
- Trefnwch i'r pleidleisiau post gael eu casglu yn y gorsafoedd pleidleisio trwy gydol dydd yr etholiad a sefydlu prosesau i ddarparu trywydd archwilio clir a sicrhau diogelwch y pecynnau pleidleisiau post a gesglir.
- Pwysleisiwch gyda'r Swyddogion Llywyddu bwysigrwydd gofalu am ddiogelwch y pleidleisiau post trwy eu cyfarwyddo i roddi'r pleidleisiau post a ddychwelir yn syth yn y pacedi a ddarperir.

Cynhyrchu cynllun gosodiad i bob un o'ch gorsafoedd pleidleisio:

- Yn y cynllun gosodiad rhaid dangos lleoliad yr holl ddodrefn ac offer angenrheidiol, a nodi hefyd yn lle i osod pob hysbysiad.

### Cynhyrchu'r papurau pleidleisio [dolen i ddilyn yn fuan]

Cynhyrchwch y papurau pleidleisio yn unol â thempled a chyfarwyddiadau argraffu'r Dirprwy Brif Swyddog Cyfrif [dolen i ddilyn yn fuan]:

- Argraffwch ddigon o bapurau pleidleisio yn seiliedig ar 100% o'r pleidleiswyr cymwys yn troi allan.
- Rhaid argraffu papurau pleidleisio cyffredin ar bapur **gwyn**.
- Rhaid argraffu papurau pleidleisio a gyflwynir ar bapur **pinc**.
- Ychwanegwch y marc swyddogol at eich papurau pleidleisio yn ôl y dull y cewch gyfarwyddyd yn ei gylch gan y Dirprwy Brif Swyddog Cyfrif.

Sicrhewch fod dull yn ei le i wirio dilysrwydd papurau pleidleisio.

Cymerwch gamau i ddiogelu'r papurau pleidleisio yn ystod eu cynhyrchu a'u storio.

### Cardiau pleidleisio [dolen i ddilyn yn fuan]

Cynhyrchwch y cardiau pleidleisio trwy ddefnyddio templedi'r Prif Swyddog Cyfrif [dolen i ddilyn yn fuan].

Sicrhewch fod gennych broses yn ei lle i wirio dilysrwydd yr holl gardiau pleidleisio wrth iddynt gael eu hargraffu.

Nodwch beth yw'r drefn ar gyfer danfon y cardiau pleidleisio a gwnewch drefniadau priodol yn unol â hynny:

- Danfonwch eich argraffiad cyntaf o gardiau pleidleisio erbyn 28 Ionawr 2011.
- Dechreuwch anfon y pecyn olaf o gardiau pleidleisio ar 24 Chwefror 2011.
- Peidiwch â rhoddi i'r Post Brenhinol nac i unrhyw gwmni post arall yr un cerdyn pleidleisio i etholwyr a gofrestrwyd dan y rheol 11-diwrnod tan ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad newid refferendwm ar 24 Chwefror 2011.

### Cyhoeddwch hysbysiadau [dolen i ddilyn yn fuan]

Sicrhewch fod yr hysbysiadau ar gael yn hwylus gan gynnwys gwneud defnydd o wefan yr awdurdod lleol i hwyluso mynediad.

Cyhoeddwch yr hysbysiad refferendwm ar 27 Ionawr 2011.

Cyhoeddwch yr hysbysiad etholiad ar 9 Chwefror 2011.

### Ymgyrchwyr ac asiantau [dolen i ddilyn yn fuan]

Briffiwch yr asiantau refferendwm lleol – y rhai sydd wedi cysylltu gyda chi neu a benodwyd i'ch ardal bleidleisio yng nghyswllt y trefniadau lleol i'r refferendwm.

Cyhoeddwch yr hysbysiad penodi asiantau refferendwm ar brynhawn 9 Chwefror 2011.

Sicrhewch fod yr holl asiantau penodedig yn derbyn copi o'r gofynion cyfrinachedd perthnasol [dolen i ddilyn yn fuan].

Wrth benderfynu ar y nifer mwyaf bosib o asiantau cyfrif rhaid i bob asiant refferendwm, i'r graddau y bo'n bosib, gael y cyfle i benodi nifer digonol i bwrpas craffu'n llawn ac yn briodol ar y prosesau dilysu a chyfrif.

### Arsyllwyr achrededig [dolen i ddilyn yn fuan]

Mewn ymateb i ymholiadau arsyllwyr cyflwynwch iddynt y wybodaeth am leoliadau ac am amseroedd prosesau'r refferendwm.

# 3 Pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio

Cyfarwyddiadau

Penodi a hyfforddi holl staff ac arolygwyr gorsafoedd pleidleisio:

- Penodwch yr holl staff gorsafoedd pleidleisio erbyn 13 Ionawr 2011 (ac eithrio unrhyw staff amnewidiol a ddynodir yn angenrheidiol ar ôl yr amser hwnnw).
- Hyfforddwch holl staff gorsafoedd pleidleisio erbyn 25 Chwefror 2011 (ac eithrio unrhyw staff amnewidiol a ddynodir yn angenrheidiol ar ôl yr amser hwnnw). Rhaid darparu hyfforddiant i staff amnewidiol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl eu penodi.
- Rhaid i staff gorsafoedd pleidleisio fynychu sesiwn hyfforddiant wyneb-yn-wyneb.
- Fel lleiafswm bydd raid rhoddi sylw, yn eich sesiwn hyfforddiant i staff gorsafoedd pleidleisio, i'r meysydd hynny y cyffyrddir â nhw yn nhempled cyflwyniad PowerPoint y Comisiwn [dolen i ddilyn yn fuan].
- Sicrhewch fod arolygwyr gorsafoedd pleidleisio yn derbyn yr un hyfforddiant â staff gorsafoedd pleidleisio fel bod modd eu defnyddio'n hyblyg a gwneud dyletswyddau gorsaf bleidleisio petai raid.
- Rhoddwch gyfarwyddyd ychwanegol i arolygwyr gorsafoedd pleidleisio, yng nghyswllt eitemau sy'n benodol i'w swyddogaeth.
- Rhoddwch gopi o lawlyfr gorsaf bleidleisio'r Comisiwn a chanllawiau cyflym i holl staff gorsafoedd pleidleisio ac arolygwyr [dolen i ddilyn yn fuan].
- Sicrhewch fod yr holl staff gorsafoedd pleidleisio ac arolygwyr yn derbyn rhifau cysylltu, gan gynnwys rhif cyswllt yr heddlu, i'w defnyddio pe cyfyd unrhyw broblem.
- Rhoddwch gyfarwyddiadau i arolygwyr gorsafoedd pleidleisio yng nghyswllt eu swyddogaeth a rhestr wirio o dasgau i'w cyflawni.

Sicrhau y byddwch, ar y dydd, yn gallu defnyddio'r gorsafoedd pleidleisio'n hyblyg:

- Rhaid i'ch cynlluniau fod yn ddigon hyblyg fel bod modd defnyddio staff i ymateb i faterion penodol allai godi trwy gydol diwrnod y bleidlais.
- Rhaid hyfforddi'r Clercod Pleidleisio a'r Swyddogion Llywyddu fel bod y naill gyda'r wybodaeth dechnegol i gyflawni, petai raid, swyddogaethau'r llall.

Cyflwyno proses i gyfathrebu unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r cofrestri gorsaf bleidleisio ac i'r rhestrau dirprwyon fel y cafwyd amdanynt gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol.

Gwirio a pharatoi'r holl offer a'r holl ddeunyddiau gorsaf bleidleisio:

- Gwiriwch fod holl offer yr orsaf bleidleisio yn addas i'r pwrpas a bod gennych gyflenwad digonol.
- Sicrhewch fod unrhyw offer ychwanegol sy'n angenrheidiol i ddarparu mynediad i'r orsaf bleidleisio yn cael ei ddanfon a'i osod ac yn ei le mewn da bryd ar gyfer agor yr orsaf.
- Rhennwch bapurau pleidleisio i'r gorsafoedd pleidleisio yn seiliedig ar 100% o'r etholwyr cymwys yn troi allan (h.y. yr holl etholwyr hynny sydd â'r hawl, yn bersonol, i bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio).
- Sicrhewch fod y rhifau ar y papurau pleidleisio a ddyrannwyd i bob gorsaf bleidleisio yn rhedeg yn olynol mewn trefn.
- Cymerwch bob cam angenrheidiol i sicrhau bod staff gorsafoedd pleidleisio yn ymwybodol o dan ba amgylchiadau y mae modd rhyddhau papurau pleidleisio a anfonwyd.
- Sicrhewch fod staff gorsafoedd pleidleisio yn ymwybodol o dan ba amgylchiadau i ryddhau papurau pleidleisio a anfonwyd.
- Sicrhewch fod yr hysbysiadau 'Canllawiau i bleidleiswyr' a'r 'Cyfarwyddiadau i bleidleiswyr' yn cael eu dylunio a'u hargraffu gan ddefnyddio templedi'r Comisiwn [dolen i ddilyn yn fuan].
- Sicrhewch fod gan yr arolygwyr gorsafoedd pleidleisio bob amser gopïau wrth gefn o lawlyfrau gorsaf bleidleisio a chyfarwyddiadau cyflym, papurau pleidleisio, offer, papur swyddfa ac eitemau eraill megis ffurflenni, amlenni a chopïau o'r gofrestr etholwyr rhag ofn y bydd prinder neu eitemau ar goll.
- Paratowch gofnod gorsaf bleidleisio i staff y gorsafoedd pleidleisio gofnodi unrhyw broblemau neu anghysonderau.
- Sicrhewch fod yr holl offer a deunyddiau gorsaf bleidleisio yn barod i'r Swyddogion Llywyddu eu casglu neu i'w danfon i orsafoedd pleidleisio erbyn 1 Mawrth 2011.

Rheoli'r pleidleisiau post a ddychwelir i'r gorsafoedd pleidleisio:

- Darparwch o leiaf ddau becyn i bleidleisiau post a dderbynnir yn y gorsafoedd pleidleisio.
- Rhaid nodi'n glir ar y pecynnau eu bod yn cynnwys pleidleisiau post a nodi hefyd enw'r orsaf bleidleisio a'r dynodwr yn yr orsaf bleidleisio.
- Trefnwch i'r pleidleisiau post gael eu casglu yn y gorsafoedd pleidleisio trwy gydol dydd yr etholiad a sefydlu prosesau i ddarparu trywydd archwilio clir a sicrhau diogelwch y pecynnau pleidleisiau post a gesglir.
- Pwysleisiwch gyda'r Swyddogion Llywyddu bwysigrwydd gofalu am ddiogelwch y pleidleisiau post trwy roddi cyfarwyddyd iddynt roddi'r pleidleisiau post a ddychwelir yn syth yn y pecynnau a ddarperir.

Cynhyrchwch gynllun gosodiad i bob un o'ch gorsafoedd pleidleisio:

- Yn y cynllun gosodiad rhaid dangos lleoliad yr holl ddodrefn ac offer angenrheidiol, a nodi hefyd yn lle i osod pob hysbysiad.

# Penodi staff

3.1 Unwaith y byddwch wedi penderfynu ar anghenion staff eich gorsafoedd pleidleisio bydd raid mynd ati'n ffurfiol i benodi staff. Rhaid penodi'r holl staff gorsafoedd pleidleisio, gan gynnwys arolygwyr gorsafoedd pleidleisio, erbyn 13 Ionawr 2011. Fodd bynnag gallwch, ar ôl y dyddiad hwn, barhau i benodi swyddogion amnewidiol a nodwyd fel rhai angenrheidiol.

3.2 Dan y gyfraith, rhaid cyflwyno i'r holl Swyddogion Llywyddu, Clercod Pleidleisio a'r holl arolygwyr gorsafoedd pleidleisio, hysbysiadau yn nodi'r gofynion cyfrinachedd mewn gorsafoedd pleidleisio [dolen i ddilyn yn fuan].[3]

# Hyfforddi staff

3.3 Rhaid darparu hyfforddiant i Swyddogion Llywyddu ac i Glercod Pleidleisio erbyn 25 Chwefror 2011. Os penderfynir bod angen rhagor o staff amnewidiol ac os penodir staff o'r fath ar ôl y dyddiad hwn, rhaid darparu hyfforddiant iddynt cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosib ar ôl eu penodi.

3.4 Yn ddieithriad rhaid i staff gorsafoedd pleidleisio fynychu sesiwn hyfforddiant wyneb-yn-wyneb.

3.5 Rhaid rhoddi sylw yn y sesiwn hyfforddiant, fel lleiafswm, i'r meysydd hynny a nodir yn nhempled cyflwyniad PowerPoint y Comisiwn [dolen i ddilyn yn fuan]. Mae'r templed yn cyffwrdd â:

- y tasgau y bydd raid eu cyflawni cyn y diwrnod pleidleisio
- sefydlu a rheoli'r orsaf bleidleisio, gan gyfeirio at bwysigrwydd gofalu am gyfrinachedd y bleidlais
- eglurhad ar yr hawliau pleidleisio, pwy all fynd i orsaf bleidleisio a'r trefniadau y bydd raid eu dilyn ar ddiwrnod y bleidlais ei hun
- yr angen i staff ganolbwyntio ar y cwsmer a chynnig cymorth i'r holl bleidleiswyr, gan gynnwys pleidleiswyr anabl
- diogelwch papurau'r refferendwm, gan gynnwys pleidleisiau post a ddychwelwyd
- y trefniadau i'w dilyn wrth gau'r bleidlais
- materion iechyd a diogelwch

3.6 Bydd raid i chi gynnwys templed y Comisiwn yn eich sesiwn a darparu unrhyw wybodaeth leol ychwanegol y tybiwch ei bod yn angenrheidiol.

---

3 Rheol 18(1)(a), Atodlen 3, Gorchymyn Refferendwm CCC.

3.7 Yn ogystal mae'r Comisiwn wedi paratoi cwis [dolen i ddilyn yn fuan] ac ymarferion a senarios chwarae rôl [dolen i ddilyn yn fuan] y mae modd i chi eu defnyddio fel mecanwaith profi ac ymgorffori dysgu.

3.8 Hefyd, oherwydd pwysigrwydd sicrhau bod cyfrif y papurau pleidleisio'n cael ei gwblhau'n gywir a darparu llwybr archwilio i nifer y papurau pleidleisio a ryddhawyd ac i greu sylfaen i broses ddilysu gywir, mae'r Comisiwn wedi datblygu ymarferiad ar gwblhau'r cyfrif papurau pleidleisio [dolen i ddilyn yn fuan] – ymarferiad y byddwch o bosib yn dymuno'i ddefnyddio yn eich sesiynau hyfforddiant.

3.9 Mae'r Comisiwn, hefyd, wedi datblygu templed canllawiau graffig i'r defnyddiau pacio adeg cau'r bleidlais [dolen i ddilyn yn fuan], ac mae modd i chi ei addasu a'i roddi i staff gorsafoedd pleidleisio.

3.10 Rhaid i arolygwyr y gorsafoedd pleidleisio dderbyn yr un hyfforddiant â staff y gorsafoedd pleidleisio fel bod modd eu defnyddio'n hyblyg a gwneud dyletswyddau gorsaf bleidleisio petai raid. Hefyd bydd raid i chi friffio'r arolygwyr gorsafoedd pleidleisio yn ychwanegol ar eitemau sy'n benodol i'w swyddogaeth.

3.11 Rhaid cyflwyno copi o lawlyfr y Comisiwn i staff y gorsafoedd pleidleisio ac i arolygwyr y gorsafoedd pleidleisio [dolen i ddilyn yn fuan] a chanllaw cyflym [dolen i ddilyn yn fuan], a'u cyfarwyddo i ddarllen y ddwy ddogfen cyn y diwrnod pleidleisio a dod â chopi gyda nhw ar ddiwrnod y bleidlais ei hun. Rhaid rhoddi copïau sbâr o'r llawlyfr ac o'r canllaw cyflym i'r arolygwyr gorsafoedd pleidleisio, fel bod modd eu rhoddi i staff , yn y gorsafoedd a anghofiodd ddod â chopi ar ddiwrnod y bleidlais.

3.12 Hefyd bydd raid rhoddi rhifau cyswllt i staff y gorsafoedd pleidleisio ac i arolygwyr y gorsafoedd pleidleisio gan gynnwys y rhifau i gysylltu â'r heddlu, rhag ofn i unrhyw broblemau godi.

# Staffio

## Hyblygrwydd adnoddau yn y gorsafoedd pleidleisio

3.13 Yng nghymarebau'r Prif Swyddog Cyfrif pan fo'n dyrannu staff gorsafoedd pleidleisio [dolen i ddilyn yn fuan], mae opsiynau gwahanol ar gael i chi yng nghyswllt defnyddio staff yn y gorsafoedd pleidleisio. Yn eich cynlluniau rhaid cael digon o hyblygrwydd fel bod modd defnyddio staff i ymateb i faterion penodol allai godi trwy gydol diwrnod y bleidlais. Beth bynnag y penderfynwch arno bydd gofyn i chi allu egluro pam eich bod wedi penderfynu ar fodel adnoddau penodol.

### Enghraifft

Petai gennych 1,200 o etholwyr wedi'u dyrannu i orsaf bleidleisio, rhaid i chi, yn ôl cymarebau'r Prif Swyddog Cyfrif, benodi un Swyddog Llywyddu a dau Glerc Pleidleisio i'r orsaf bleidleisio honno. Hefyd bydd raid i chi benderfynu beth fydd swyddogaethau'r staff yn yr orsaf bleidleisio honno.

Felly, er enghraifft:

- gallai pob un o'r tri staff fod yn rhan o'r broses ddosbarthu, neu
- gallai un aelod o'r staff weithredu fel swyddog gwybodaeth i gynorthwyo'r pleidleiswyr a bod ar gael i ateb cwestiynau a fo ganddynt, tra bo'r ddau arall yn gwneud gwaith dosbarthu.

Er bod rhaid i chi benderfynu ar ba rolau y dylai staff ym mhob gorsaf bleidleisio eu cyflawni, efallai y bydd angen addasu hyn ar wahanol adegau'n ystod y dydd, er enghraifft, ar unrhyw adegau sy'n arbennig o brysur. Felly mae'n hanfodol cadw hyblygrwydd i ganiatáu i chi addasu i amgylchiadau sy'n newid drwy gydol y diwrnod pleidleisio.

Os yw'r orsaf bleidleisio wedi ei lleoli mewn man pleidleisio sydd â nifer o orsafoedd pleidleisio, gellid defnyddio un neu fwy o aelodau o staff fel swyddogion gwybodaeth ar gyfer yr holl orsafoedd pleidleisio ac i gynorthwyo gydag anfon y pleidleiswyr i'r orsaf bleidleisio gywir. Hefyd, mae'n bosib y gellid defnyddio staff o un orsaf bleidleisio yn y man pleidleisio i gynorthwyo staff mewn gorsaf bleidleisio arall oddi mewn i'r adeilad hwnnw os bydd angen, er enghraifft o ganlyniad i nifer uchel o bleidleiswyr yn mynychu un o'r gorsafoedd ar adeg neilltuol pan fo'r orsaf arall yn dawel.

3.14 I adnoddau hyblyg weithio'n effeithiol, rhaid i chi sicrhau bod y Clercod Pleidleisio a Swyddogion Llywyddu â'r wybodaeth dechnegol i allu gwneud rolau'r naill a'r llall pan fo angen.

3.15 Yn ychwanegol, gallech benodi tîm o staff gorsafoedd pleidleisio ategol i'w defnyddio ar adegau prysur mewn gorsafoedd pleidleisio penodol neu i ymateb i faterion penodol a allai godi drwy gydol y diwrnod pleidleisio. Os nad yw rhannau o'r ardal bleidleisio'n hygyrch, efallai y byddai'n ddefnyddiol cael timau wedi eu lleoli mewn gwahanol rannau o'r ardal.

3.16 Mae'r Prif Swyddog Cyfrif yn cydnabod nad yw penodi staff 'ategol' bob amser yn ymarferol. Fodd bynnag, ar y lleiaf, rhaid i chi allu defnyddio staff yn hyblyg ar ddiwrnod y bleidlais i ymateb i faterion penodol a allai godi, yn enwedig yn y cyfnod sy'n arwain at gau'r etholiad. Gall hyn gynnwys penodi Clercod Pleidleisio i fynychu gorsafoedd pleidleisio penodol yn ystod oriau brig pleidleisio disgwyliedig neu yn y cyfnod yn arwain at 10pm.

## Arolygwyr gorsafoedd pleidleisio

3.17 Mae arolygwyr gorsafoedd pleidleisio'n chwarae rôl bwysig o ran paratoi i reoli'r etholiad yn effeithiol, a dylent fod yn gymwys i ddelio gydag ymholiadau a phroblemau sy'n codi yn yr orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio. Dylent sicrhau bod yr holl orsafoedd pleidleisio a ddynodwyd iddynt wedi eu gosod i fyny'n gywir, a chanddynt yr holl offer, a'u bod yn hygyrch i'r holl bleidleiswyr.

3.18 Dylai'r arolygydd gorsaf bleidleisio weithio gyda'r Swyddogion Llywyddu a staff gorsafoedd pleidleisio eraill i ddynodi a delio ag unrhyw broblemau sy'n codi, a dylent symud unrhyw faterion i fyny at y Swyddog Cyfrif fel bo'n briodol. Mae arolygwyr gorsafoedd pleidleisio yn rhoi cyswllt cyfathrebu hanfodol rhwng staff gorsafoedd pleidleisio a'r Swyddog Cyfrif.

3.19 O ran yr ymweliadau cychwynnol, dylai arolygwyr gorsafoedd pleidleisio geisio ymweld â'r holl orsafoedd pleidleisio sydd wedi cael eu dyrannu iddynt cyn gynted â phosib, fel bod modd eich sicrhau bod pob gorsaf wedi agor ar amser a'u bod yn gweithredu'n effeithiol.

3.20 Gellir defnyddio ymweliadau dilynol drwy'r dydd i amryw bwrpasau, gan gynnwys casglu pleidleisiau post, gwirio bod yr holl hysbysiadau yn cael eu harddangos yn iawn ac i ddosbarthu unrhyw offer sydd ar goll, neu offer ychwanegol sydd eu hangen. Rhaid i arolygwyr gorsafoedd pleidleisio felly gludo gyda nhw lawlyfrau gorsaf bleidleisio a chanllawiau cyflym ychwanegol, papurau pleidleisio, offer, deunyddiau papur ac eitemau eraill fel ffurflenni, amlenni a chopïau o'r gofrestr etholwyr, rhag ofn y bydd prinder neu eitemau ar goll.

3.21 Hefyd mae angen defnyddio'r ymweliadau i asesu materion mynediad ac i ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gan staff gorsafoedd pleidleisio. Mewn ambell achos efallai y gofynnir i arolygydd gorsaf bleidleisio ddanfon sieciau i dalu i staff gorsafoedd pleidleisio.

3.22 Efallai y bydd arolygydd gorsaf bleidleisio yn ymwneud â chysylltu gyda'r swyddfa cofrestru etholiadol yng nghyswllt diwygiadau diwrnod pleidleisio i'r gofrestr a cheisiadau dirprwy brys. Dan yr amgylchiadau hyn bydd raid i chi fod â phroses yn ei lle i gyfathrebu unrhyw newidiadau, a chynghori arolygwyr gorsafoedd pleidleisio ynghylch eu swyddogaeth yn y broses, os bydd un. Gellir canfod rhagor o wybodaeth am ddiwygiadau i gofrestri gorsaf bleidleisio ym mharagraff 3.31.

3.23 Bydd raid i chi sicrhau bod arolygwyr gorsafoedd pleidleisio â chyfarwyddiadau yng nghyswllt eu swyddogaeth a bod ganddynt restr wirio o dasgau i'w cyflawni. Mae'r Comisiwn wedi cynhyrchu rhestr wirio y mae modd ei rhoddi i'r arolygwyr gorsafoedd pleidleisio iddynt hwy, wedyn, ei chwblhau yn ystod eu hymweliadau â gorsafoedd pleidleisio [dolen i ddilyn yn fuan]. Mae'r ddogfen hon hefyd yn cynnwys rhestr o'r hyn y dylai pob arolygydd gorsaf bleidleisio ei dderbyn cyn y diwrnod pleidleisio.

3.24 Yn ychwanegol at roddi pwyslais ar rai materion, hefyd mae modd defnyddio rhestrau gwirio a gwblhawyd i bwrpas gwerthuso addasrwydd gorsafoedd pleidleisio fel rhan o'r arolwg ar ôl y refferendwm.

# Offer a deunyddiau gorsaf bleidleisio

3.25 Mae'n ddyletswydd gyfreithiol arnoch i ddarparu rhai deunyddiau penodol yn y gorsafoedd pleidleisio.[4] Mae'r Prif Swyddog Cyfrif wedi darparu rhestr wirio eitemau y mae'n rhaid i chi roddi copi ohoni i bob gorsaf bleidleisio [dolen i ddilyn yn fuan]. Bydd raid i chi wirio bod holl offer y gorsafoedd pleidleisio yn addas i'r pwrpas a bod gennych gyflenwad digonol. Hefyd bydd raid i chi fod wedi paratoi eich offer a'ch deunyddiau gorsaf bleidleisio erbyn 1 Mawrth 2011, un ai i'w danfon i'r gorsafoedd pleidleisio neu i'r Swyddogion Llywyddu eu casglu.

3.26 Fel rhan o'ch asesiad o addasrwydd eich gorsafoedd pleidleisio byddwch eisoes wedi ystyried materion mynediad y tu allan a'r tu mewn i bob un o'ch gorsafoedd pleidleisio. Rhaid i chi sicrhau fod unrhyw offer ychwanegol yr ydych wedi ei ddynodi'n ofynnol i hwyluso mynediad i'r orsaf bleidleisio yn cael ei ddanfon a'i osod yn ei le mewn da bryd i agor y pleidleisio etholiad.

## Dyrannu papurau pleidleisio

3.27 Rhaid i chi ddyrannu papurau pleidleisio i'r gorsafoedd pleidleisio yn seiliedig ar 100% o'r etholwyr cymwys yn troi allan (h.y. pob etholwr sydd â'r hawl i bleidleisio yn bersonol yn yr orsaf bleidleisio).

3.28 Rhaid i chi sicrhau y bydd rhifau'r papurau pleidleisio a ddyrannwyd i bob gorsaf bleidleisio yn rhedeg yn olynol er mwyn osgoi problemau a allai godi wrth gwblhau'r rhestr niferoedd cyfatebol neu'r cyfrifon papurau pleidleisio. Ceir cyfarwyddiadau penodol ar argraffu papurau pleidleisio ym Mhennod 4 – Cynhyrchu papurau pleidleisio [dolen i ddilyn yn fuan] isod.

3.29 Pan fyddwch yn cyflenwi unrhyw bapurau pleidleisio a gyflwynwyd i'r gorsafoedd pleidleisio, rhaid eu rhoddi mewn amlen wedi ei selio gyda chyfarwyddiadau yn datgan mai o dan amgylchiadau neilltuol yn unig y caniateir ei hagor ac y caniateir dosbarthu'r papurau pleidleisio ynddo, a bydd raid darparu disgrifiad cryno o'r amgylchiadau hynny. Gall hyn fod o gymorth i osgoi dosbarthu, trwy gamgymeriad, bapurau pleidleisio a gyflwynwyd.

3.30 Rhaid i'r Swyddogion Cyfrif gymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau fod holl staff y gorsafoedd pleidleisio yn deall mai o dan amgylchiadau prin yn unig y gellir dosbarthu papurau pleidleisio a gyflwynwyd, a rhoi gwybod iddynt beth yw'r amgylchiadau hynny a pha brosesau y bydd raid iddynt eu dilyn pan yn eu

4 Rheol 16, Atodlen 3, Gorchymyn Refferendwm CCC.

dosbarthu. Rhoddir sylw i'r amgylchiadau pryd y bydd modd dosbarthu papurau pleidleisio a gyflwynwyd a'r prosesau i'w dilyn yn y llawlyfr gorsaf bleidleisio [dolen i ddilyn yn fuan] ac yn nhempled cyflwyniad PowerPoint y Comisiwn [dolen i ddilyn yn fuan].

## Cofrestri gorsaf bleidleisio a rhestrau pleidleisio absennol

3.31 Yn ôl y gyfraith, rhaid i chi ddarparu i bob Swyddog Llywyddu y gofrestr etholwyr briodol i'w orsaf bleidleisio[5] a rhestrau pleidleisio absennol priodol.[6] Bydd modd argraffu'r cofrestri gorsaf bleidleisio unwaith y cyhoeddir yr hysbysiad newid y refferendwm, h.y. ar 24 Chwefror 2011. Bydd raid cael trefniadau yn eu lle i ymdrin ag unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i'r cofrestri gorsaf bleidleisio ac i'r rhestrau dirprwyon y cafwyd gwybod amdanynt trwy'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ar ôl y dyddiad hwn yn sgil cywiro gwallau clercyddol, neu yn sgil penderfyniadau llys ar apeliadau cofrestru, a chaniatáu ceisiadau dirprwy brys.

3.32 P'un a yw'r penderfyniadau'n cael eu gwneud cyn y diwrnod pleidleisio neu ar ddiwrnod y bleidlais ei hun, os nad chi hefyd yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol, rhaid i chi gytuno gyda nhw ar ddull o gyfathrebu'r wybodaeth berthnasol i'r Swyddogion Llywyddu, y gellir ei wneud ar lafar neu'n ysgrifenedig.[7]

3.33 Pan fo sylw'n cael ei gyflwyno'n uniongyrchol i staff gorsafoedd pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio, yna bydd raid cyfathrebu'r sylw hwnnw cyn gynted ag y bo'n bosib i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.[8] Yn amlwg mae hyn yn gofyn am gael systemau cyfathrebu digonol yn eu lle i gyflwyno a derbyn sylwadau o'r fath.

3.34 Pan fo'r hysbysiad yn cael ei gyfathrebu ar lafar, sy'n cynnwys dros y ffôn, mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar i'r Swyddog Llywyddu gadw cofnod ysgrifenedig o enw'r etholwr ac o'i rif.[9] Fel cymorth i'r Swyddogion Llywyddu, fe ddylech roddi dalen ychwanegol ynghlwm wrth y cofrestri gorsaf bleidleisio fel bod modd iddynt gofnodi diwygiadau hwyr o'r fath.

3.35 Unwaith y mae'r wybodaeth ar yr hysbysiad wedi'i derbyn a'r etholwr perthnasol wedi cyrraedd ac wedi ymgeisio am bleidlais mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar y Swyddog Llywyddu i ddosbarthu'r papur pleidleisio yn y ffordd

---

5 Rheol 16(3)(b), Atodlen 3, Gorchymyn Refferendwm CCC.
6 Rheol 16(3)(c), Atodlen 3, Gorchymyn Refferendwm CCC.
7 Rheoliad 36A, Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001, fel y'u cymhwysir gan Baragraff 18, Atodlen 1, Gorchymyn Refferendwm CCC.
8 Rheoliad 32A, Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001, fel y'u cymhwysir gan Baragraff 18, Atodlen 1, Gorchymyn Refferendwm CCC.
9 Rheol 30, Atodlen 3, Gorchymyn Refferendwm CCC.

arferol, er y dylid marcio'r hysbysiad o'r gwallau clercyddol ac apeliadau cofrestru yn lle'r gofrestr etholiadol i ddangos bod yr etholwr wedi pleidleisio.[10]

3.36 Rhaid paratoi prosesau cyffelyb i gyfathrebu ychwanegiadau i'r rhestr pleidleiswyr dirprwyol mewn ymateb i geisiadau dirprwyol brys.

## Rhestrau rhifau cyfatebol

3.37 Mae'n ddyletswydd gyfreithiol arnoch i baratoi a darparu i bob gorsaf bleidleisio y rhestrau o rifau cyfatebol.[11] Mae'r rhestrau o rifau cyfatebol yn ddogfennau a nodir fel rhai angenrheidiol.[12] Mae dwy restr o rifau cyfatebol: Ffurflen E sy'n cynnwys rhif a marc adnabod unigryw i bob papur pleidleisio a gynhyrchwyd i'r refferendwm; a Ffurflen J, sef y ffurflen a ddefnyddir yn y gorsafoedd pleidleisio ac sy'n cynnwys rhifau'r papurau pleidleisio a cholofn i ychwanegu rhifau'r etholwyr y rhyddhawyd y papurau pleidleisio hynny ar eu cyfer.

3.38 Mae'r Comisiwn wedi cynhyrchu templed i'r rhestrau o rifau cyfatebol, ac fe ddylech ei ddefnyddio yn y gorsafoedd pleidleisio [dolen i ddilyn yn fuan] ac yn y sesiynau rhyddhau pleidleisiau post [dolen i ddilyn yn fuan].

## Pecynnau o bapurau pleidleisio drwy'r post a ddanfonir i'r gorsafoedd pleidleisio

3.39 Yn y gorsafoedd pleidleisio bydd raid i chi ddarparu o leiaf ddau becyn i bleidleisiau post a dderbyniwyd. Bydd cofnod yn cael ei gadw o bob pecyn fel bod cyfrif am bob un. Rhaid labelu pob pecyn yn glir i nodi bod ynddo bleidleisiau post a chynnwys enw'r orsaf bleidleisio a dynodydd yr orsaf bleidleisio. Yn ôl y gyfraith, rhaid sicrhau bod modd selio'r pecyn yn ddiogel.[13] Mae'r asiantau etholiad â'r hawl i roddi eu sêl ar y pecynnau a seliwyd cyn eu symud o'r orsaf bleidleisio ac felly rhaid caniatáu iddynt wneud hyn.[14]

3.40 Yn y sesiwn hyfforddiant bydd raid i chi bwysleisio wrth y Swyddogion Llywyddu bwysigrwydd gofalu am ddiogelwch y pleidleisiau post a ddychwelir i'r gorsafoedd pleidleisio trwy roddi cyfarwyddyd iddynt i roddi'r pleidleisiau post a ddychwelir yn syth yn y pecynnau a ddarperir, a sicrhau bod y pecynnau'n cael eu storio'n ddiogel.

3.41 Bydd raid i chi drefnu bod y pleidleisiau post yn cael eu casglu o'r gorsafoedd pleidleisio trwy gydol y dydd gan y bydd hyn o gymorth i ostwng y nifer y bydd raid rhoddi sylw iddynt ar ôl cau'r etholiad. Gall yr arolygwyr

---

10 Rheol 25(3), Atodlen 3, Gorchymyn Refferendwm CCC.
11 Rheolau 7 a 16(d), Atodlen 3, Gorchymyn Refferendwm CCC.
12 Ffurflenni E a J, Atodlen 6, Gorchymyn Refferendwm CCC.
13 Rheol 34(8), Atodlen 3, Gorchymyn Refferendwm CCC.
14 Rheol 34(8), Atodlen 3, Gorchymyn Refferendwm CCC.

gorsafoedd pleidleisio gyflawni'r ddyletswydd hon. Bydd raid sefydlu prosesau sy'n darparu trywydd archwilio clir ac sy'n gofalu am ddiogelwch y pecynnau o bleidleisiau post casgledig tra byddant yn cael eu cludo.

### Cofnod gorsaf bleidleisio

3.42 Bydd raid i chi baratoi cofnod gorsaf bleidleisio i staff gorsafoedd pleidleisio ei ddefnyddio i bwrpas cofnodi unrhyw broblemau neu anghysonderau. Yn arbennig fe ddylid cynghori staff gorsafoedd pleidleisio i ddefnyddio'r cofnod hwn i gofnodi unrhyw beth a allai egluro materion yn codi gyda'r cyfrif papurau pleidleisio ar adeg dilysu – er enghraifft, pe gwelid pleidleisiwr yn gadael yr orsaf bleidleisio gyda'i bapur pleidleisio.

### Hysbysiadau gorsaf bleidleisio

3.43 Rhaid paratoi'r hysbysiadau 'Canllawiau i bleidleiswyr' a 'Chyfarwyddiadau i bleidleiswyr' gan ddefnyddio templedi'r Prif Swyddog Cyfrif [dolen i ddilyn yn fuan].

3.44 Dan y gyfraith rhaid arddangos y poster canllawiau i bleidleiswyr y tu mewn a'r tu allan i'r orsaf bleidleisio.[15] Hefyd dan y gyfraith rhaid arddangos yr hysbysiad cyfarwyddiadau i bleidleiswyr ymhob bwth pleidleisio.[16]

## Gosodiad gorsafoedd pleidleisio

3.45 Bydd raid i chi ddatblygu cynlluniau ar gyfer gosodiad pob un o'ch gorsafoedd pleidleisio, a chwblhau'r gwaith erbyn 21 Ionawr 2011. Yn eich cynlluniau gosodiad rhaid nodi lleoliad yr holl ddodrefn a'r holl offer angenrheidiol a hefyd yn lle y bydd yr holl hysbysiadau yn cael eu harddangos. Nid yn unig y bydd gofyn i chi ystyried lleoliad yr arwyddion y tu mewn i'r orsaf bleidleisio ond hefyd rhai'r tu allan. Wrth ddatblygu eich cynlluniau bydd raid ystyried niferoedd a llif y pleidleiswyr, gan fod yn ymwybodol o sut y bydd y pleidleisiwr yn symud trwy'r broses bleidleisio o'r adeg pryd y daw i mewn i'r orsaf bleidleisio hyd nes y bydd yn ei gadael. Hefyd dylech sicrhau bod eich cynlluniau'n cyfeirio at yr holl bwyntiau ar restr wirio'r Comisiwn o ran mynediad ac arddangos hysbysiadau [dolen i ddilyn yn fuan].

3.46 Bydd raid rhoddi copi o'ch cynlluniau gosodiad i bwy bynnag sy'n gofalu am drefnu'r gorsafoedd pleidleisio, gyda chyfarwyddyd i'w dilyn nhw. Hyd yn oed pan na fydd disgwyl i'r staff gorsafoedd pleidleisio drefnu'r gorsafoedd hynny, rhaid sicrhau eu bod hwythau hefyd yn derbyn copïau o'r cynlluniau fel bod modd iddynt wirio bod yr orsaf bleidleisio wedi'i threfnu'n gywir.

---

15 Rheol 16(14), Atodlen 3, Gorchymyn Refferendwm CCC.
16 Rheol 16(15), Atodlen 3, Gorchymyn Refferendwm CCC.

# 4 Cynhyrchu'r papurau pleidleisio

**Cyfarwyddyd**

Cynhyrchwch y papurau pleidleisio yn unol â thempled a chyfarwyddiadau argraffu'r Dirprwy Brif Swyddog Cyfrif [dolen i ddilyn yn fuan]:

- Argraffwch ddigon o bapurau pleidleisio yn seiliedig ar 100% o'r pleidleiswyr cymwys yn troi allan.
- Rhaid argraffu papurau pleidleisio cyffredin ar bapur **gwyn**.
- Rhaid argraffu papurau pleidleisio a gyflwynir ar bapur **pinc**.
- Ychwanegwch y marc swyddogol at eich papurau pleidleisio yn ôl y dull y cewch gyfarwyddyd yn ei gylch gan y Dirprwy Brif Swyddog Cyfrif.

Sicrhewch fod dull yn ei le i wirio dilysrwydd papurau pleidleisio.

Cymerwch gamau i ddiogelu'r papurau pleidleisio yn ystod eu cynhyrchu a'u storio.

4.1 Mae'r Dirprwy Brif Swyddog Cyfrif wedi cynhyrchu templed o ffurf ddynodedig y papur pleidleisio [dolen i ddilyn yn fuan] y bydd raid i chi ei ddefnyddio ac mae'r templed yn cynnwys cyfarwyddiadau i bwrpas argraffu'r papur pleidleisio. Bydd raid i chi yrru'r templed ac unrhyw ddata angenrheidiol at eich argraffwyr dim hwyrach na 7 Ionawr 2011.

4.2 Rhaid argraffu'r papurau pleidleisio cyffredin ar bapur gwyn. Bydd y papurau pleidleisio a gyflwynwyd yn cael eu hargraffu ar bapur pinc.

4.3 Bydd raid i chi gael trefn i wirio proflenni'r papurau pleidleisio ac i gynnal gwaith gwirio ar hap yn ystod proses argraffu'r papurau pleidleisio.

Gellir canfod manylion am reoli contractwyr a chyflenwyr ac ar roi yn eu lle fecanweithiau gwirio ym Modiwl 1 – Cynllunio a threfnu [dolen i ddilyn yn fuan].

## Argraffu papurau pleidleisio

4.4 Rhaid i chi seilio rhediad eich argraffiad o'r papurau pleidleisio ar 100% o'r etholwyr cymwys yn troi allan. Rhaid seilio rhediad eich argraffiad ar y gofrestr sydd mewn grym adeg argraffu'r papurau pleidleisio, gyda darpariaeth i ymdrin ag unrhyw ychwanegiadau at y gofrestr ar ôl yr amser hwnnw.

4.5 Mae gofyn i chi ddechrau argraffu papurau pleidleisio cyn gynted ag y bo’n bosib ar ôl cymeradwyo’r proflenni terfynol.

4.6 Bydd raid i chi ychwanegu marc diogelwch priodol at y papurau pleidleisio – cyfeirir at hwn fel y ‘marc swyddogol’ – yn y dull a bennir gan y Dirprwy Brif Swyddog Cyfrif. Dan y gyfraith, rhaid argraffu’r marc swyddogol ar wyneb y papur pleidleisio.[17] Gall hefyd gael ei argraffu ar y cefn yn ogystal.[18]

4.7 Unwaith y mae’r marc swyddogol wedi’i argraffu ar eich papurau pleidleisio, yna maent yn ‘fyw’. Sut bynnag y byddwch wedi argraffu – yn allanol neu’n fewnol – bydd raid cael digon o fesurau diogelwch yn eu lle i rwystro mynediad anawdurdodedig neu wneud defnydd heb awdurdod o’r papurau pleidleisio yn ystod pob cam o’r broses gynhyrchu a storio rhwng yr argraffu a’r etholiad.

17 Paragraff 5(f), Cyfarwyddiadau ar argraffu’r papur pleidleisio, Ffurflen D, Atodlen 6, Gorchymyn Refferendwm CCC.
18 Paragraff 6(e), Cyfarwyddiadau ar argraffu’r papur pleidleisio, Ffurflen D, Atodlen 6, Gorchymyn Refferendwm CCC.

# 5 Cardiau pleidleisio

**Cyfarwyddiadau**

Cynhyrchwch y cardiau pleidleisio trwy ddefnyddio templedi'r Prif Swyddog Cyfrif [dolen i ddilyn yn fuan].

Sicrhewch fod gennych broses yn ei lle i wirio dilysrwydd yr holl gardiau pleidleisio wrth iddynt gael eu hargraffu.

Nodwch beth yw'r drefn ar gyfer danfon y cardiau pleidleisio a gwnewch drefniadau priodol ar gyfer hynny:

- Danfonwch eich argraffiad cyntaf o gardiau pleidleisio erbyn 28 Ionawr 2011.
- Dechreuwch anfon y pecyn olaf o gardiau pleidleisio ar 24 Chwefror 2011.
- Peidiwch â rhoddi i'r Post Brenhinol nac i unrhyw gwmni post arall yr un cerdyn pleidleisio i etholwyr a gofrestrwyd dan y rheol 11-diwrnod tan ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad newid refferendwm ar 24 Chwefror 2011.

5.1 Dan y gyfraith rhaid nodi'r wybodaeth bersonol ganlynol ar bob cerdyn pleidleisio:[19]

- Enw'r etholwr, ei gyfeiriad cymwys a'i rif ar y gofrestr.
- Dyddiad ac oriau'r etholiad.
- Lleoliad yr orsaf bleidleisio yn achos pleidleisiwr gorsaf bleidleisio.
- Unrhyw wybodaeth arall y cred y Swyddog Cyfrif ei bod yn briodol a gallai gynnwys:
  - enw'r ardal bleidleisio
  - yn achos pleidleisiwr dirprwyol neu bleidleisiwr post dirprwyol, enw a chyfeiriad y dirprwy, yn ychwanegol at fanylion am yr etholwr y mae'r dirprwy'n pleidleisio ar ei ran.

5.2 Yn achos etholwr dienw, rhaid hepgor enw, cyfeiriad a rhif etholiadol yr etholwr dienw.[20]

5.3 Rhaid i chi ddefnyddio templedi'r Comisiwn i gynhyrchu cardiau pleidleisio [dolen i ddilyn yn fuan].

---

[19] Rheol 15(3), Atodlen 3 a Ffurflenni F, G, H a I, Atodlen 6, Gorchymyn Refferendwm CCC.
[20] Rheol 15(3), Atodlen 3, Gorchymyn Refferendwm CCC.

5.4 Bydd raid i chi fod wedi anfon eich data cardiau pleidleisio at eich argraffwyr erbyn 18 Ionawr 2011. Rhaid i chi sicrhau fod gennych broses yn ei lle i brawf ddarllen a gwirio cardiau pleidleisio wrth iddynt gael eu hargraffu.

Gellir canfod manylion am reoli contractwyr a chyflenwyr ac ar roi yn eu lle fecanweithiau gwirio ym Modiwl 1 – Cynllunio a threfnu [dolen i ddilyn yn fuan].

# Danfon cardiau pleidleisio

5.5 Dan y gyfraith mae'n ofynnol eich bod yn danfon cardiau pleidleisio cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad o'r refferendwm.[21] Yn ôl y gyfraith, yn ddieithriad rhaid danfon cerdyn pleidleisio i gyfeiriad cymhwyso'r etholwr neu, yn achos dirprwy, i gyfeiriad y dirprwy fel y nodir yn y rhestr dirprwyon.[22]

5.6 Gydag etholwyr dienw, rhaid danfon y cerdyn pleidleisio i gyfeiriad cymhwyso'r etholwr neu, pan fo cyfeiriad gwahanol wedi'i ddarparu, rhaid danfon y cerdyn pleidleisio i'r cyfeiriad gwahanol hwnnw fel y nodwyd ar y ffurflen gais.[23] Mae'n ofynnol, dan y gyfraith, bod cerdyn pleidleisio yn cael ei ddanfon i etholwyr a gofrestrodd yn ddienw mewn amlen atodol.[24]

5.7 Gallwch ddanfon cardiau pleidleisio â llaw, trwy'r post, neu trwy ddull arall y byddwch yn penderfynu arno fel yr un mwyaf priodol i'r ardal. Os byddwch yn penderfynu danfon cardiau pleidleisio â llaw fe ddylech benodi digon o staff i gwblhau'r gwaith danfon cardiau pleidleisio. Fe ddylech fod â mecanwaith yn ei le i sicrhau bod y cardiau pleidleisio wedi'u danfon ar draws y cyfan o'r ardal bleidleisio.

5.8 Pan fo cardiau pleidleisio'n cael eu danfon trwy'r post fe ddylech dracio'r danfoniadau fel eich bod mewn sefyllfa i ymateb i unrhyw ymholiadau gan etholwyr. Os ydych yn defnyddio'r Post Brenhinol i bostio cardiau pleidleisio, fe ddylech gysylltu â nhw'n rheolaidd.

5.9 Pa ddull bynnag a ddefnyddiwch i ddanfon bydd raid i chi ddechrau gyrru eich cardiau pleidleisio erbyn 28 Ionawr 2011. Hefyd fe ddylech drefnu i yrru rhagor wedyn erbyn 4 Chwefror 2011, i unrhyw etholwyr a ychwanegwyd at y gofrestr neu at rai y newidiwyd eu manylion yn sgil yr hysbysiad newid mis Chwefror.

---

[21] Rheol 15(1), Atodlen 3, Gorchymyn Refferendwm CCC.
[22] Rheol 15(2), Atodlen 3, Gorchymyn Refferendwm CCC.
[23] Rheol 15(4), Atodlen 3 a Ffurflenni F, G, H a I, Atodlen 6, Gorchymyn Refferendwm CCC.
[24] Rheol 15, Atodlen 3 a Ffurflenni F, G, H a I, Atodlen 6, Gorchymyn Refferendwm CCC.

## Cardiau pleidleisio a ddanfonir i etholwyr a gofrestrwyd dan y rheol 11-diwrnod

5.10 Dylid anfon diweddariad o'r data cofrestru at yr argraffwyr o 17 Chwefror 2011, ar ôl dyddiad cau cofrestru ar gyfer y refferendwm, fel bod modd cynhyrchu cardiau pleidleisio i etholwyr newydd. Fodd bynnag ni chaniateir casglu'r cardiau pleidleisio hyn i bwrpas eu danfon neu i bwrpas eu cyflwyno i'r Post Brenhinol neu i unrhyw wasanaeth danfon arall hyd nes y bydd y cyfnod gwrthwynebu wedi dod i ben a chyhoeddi, wedyn, yr hysbysiad newid refferendwm ar 24 Chwefror 2011. Bydd hyn yn sicrhau os yr hepgorwyd unrhyw ymgeisydd o'r hysbysiad newid (er enghraifft oherwydd bod y cais wedi'i atal yn sgil gwrthwynebiad) bydd modd sicrhau y gallwch dynnu allan unrhyw gardiau pleidleisio sydd eisoes wedi eu hargraffu i'r bobl hyn. Rhaid i chi ddechrau ar y gwaith terfynol yng nghyswllt danfon cardiau pleidleisio ar 24 Chwefror 2011.

5.11 Os nad chi yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd, fe ddylech gysylltu gyda nhw yng nghyswllt y posibilrwydd o rannu costau danfon trwy gyfuno gwaith gofynnol i gadarnhau cofrestriad gyda'r cerdyn pleidleisio i'r rheiny sy'n cofrestru dan y rheol 11-diwrnod.

# 6 Cyhoeddi hysbysiadau

> **Cyfarwyddiadau**
>
> Sicrhewch fod yr hysbysiadau ar gael yn hwylus gan gynnwys gwneud defnydd o wefan yr awdurdod lleol i hwyluso mynediad.
>
> Cyhoeddwch yr hysbysiad refferendwm ar 27 Ionawr 2011.
>
> Cyhoeddwch yr hysbysiad etholiad ar 9 Chwefror 2011.

6.1 Mae Gorchymyn Refferendwm CCC yn diffinio 'cyflwyno hysbysiad cyhoeddus' fel gosod hysbysiad mewn man amlwg yn yr ardal bleidleisio[25] Rhaid diffinio hyn fel darpariaeth sy'n cynnwys swyddfeydd awdurdod lleol, hysbysfyrddau, llyfrgelloedd ac adeiladau cyhoeddus eraill. Hefyd mae modd gwneud hysbysiad mewn ffordd arall y tybiwch chi sy'n addas.[26]

6.2 Yn ogystal bydd raid i chi ddefnyddio ffyrdd eraill, megis gwefan yr awdurdod lleol, i hwyluso mynediad i'r hysbysiadau i bwy bynnag sydd â diddordeb ynddynt, gan gynnwys pobl anabl. Bydd angen sefydlu linc rhwng tudalen flaen gwefan yr awdurdod lleol a'r tudalennau hynny y mae'r wybodaeth am y refferendwm arnynt. O leiaf mae angen cynnwys linc i safle cofrestru pleidleiswyr y Comisiwn, www.aboutmyvote.co.uk.

## Cyfieithiadau a fformatau hysbysiadau

6.3 Dan y gyfraith mae'n rhaid i chi ddarparu'r holl hysbysiadau cyhoeddus yng nghyswllt y refferendwm yn Saesneg a'r Gymraeg.[27]

6.4 Bydd raid i chi, dan y gyfraith, ystyried pan fo'n briodol, cyfieithu'r hysbysiadau neu eu darparu mewn fformat arall.[28] Yn ôl y gyfraith, gallwch eu cynhyrchu mewn:[29]

- Braille
- ieithoedd heblaw Saesneg a'r Gymraeg
- negeseuon graffig
- fformat clywedol neu unrhyw ffordd arall o wneud y wybodaeth yn hygyrch

---

25 Erthygl 20(1), Gorchymyn Refferendwm CCC.
[26] Erthygl 20(2), Gorchymyn Refferendwm CCC.
[27] Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (fel y'i diwygiwyd).
[28] Erthygl 19(2), Gorchymyn Refferendwm CCC.
[29] Erthyglau 19(2) a (3), Gorchymyn Refferendwm CCC.

# Hysbysiad o'r refferendwm

6.5 Bydd raid i chi, yn ôl y gyfraith, gyhoeddi'r hysbysiad o'r refferendwm erbyn 27 Ionawr 2011.[30] Bydd raid i chi gyhoeddi'r hysbysiad o'r refferendwm ar 27 Ionawr 2011. Mae'r Comisiwn wedi datblygu templed o'r hysbysiad o'r refferendwm [dolen i ddilyn yn fuan] y dylech ei ddefnyddio.

# Hysbysiad o'r bleidlais

6.6 Bydd raid i chi, yn ôl y gyfraith, gyhoeddi'r hysbysiad o'r etholiad erbyn 9 Chwefror 2011.[31] Bydd raid i chi gyhoeddi'r hysbysiad hwn ar 9 Chwefror 2011. Mae'r Comisiwn wedi datblygu templed o'r hysbysiad o'r bleidlais [dolen i ddilyn yn fuan] y dylech ei ddefnyddio. Hefyd dywed y ddeddfwriaeth y bydd raid i chi gynnwys, ar yr hysbysiad, fanylion am leoliad pob gorsaf bleidleisio yn eich ardal.[32]

6.7 Bydd raid i chi gyflwyno copi o'r hysbysiad o'r etholiad i'r holl asiantau refferendwm penodedig a bod yn barod i ddarparu copïau i unrhyw arsyllwyr achrededig.

30 Rheol 1, Atodlen 3 o Orchymyn Refferendwm CCC.
31 Rheol 1, Atodlen 3 o Orchymyn Refferendwm CCC.
32 Rheol 11(2)(d), Atodlen 3 o Orchymyn Refferendwm CCC.

# 7 Ymgyrchwyr ac asiantau

Cyfarwyddiadau

Briffiwch yr asiantau refferendwm lleol – y rhai sydd wedi cysylltu gyda chi neu a benodwyd i'ch ardal bleidleisio yng nghyswllt y trefniadau lleol i'r refferendwm.

Cyhoeddwch yr hysbysiad penodi asiantau refferendwm ar brynhawn 9 Chwefror 2011.

Sicrhewch fod yr holl asiantau penodedig yn derbyn copi o'r gofynion cyfrinachedd perthnasol [dolen i ddilyn yn fuan].

Wrth benderfynu ar y nifer mwyaf bosib o asiantau cyfrif rhaid i bob asiant refferendwm, i'r graddau y bo'n bosib, gael y cyfle i benodi nifer digonol i bwrpas craffu'n llawn ac yn briodol ar y prosesau dilysu a chyfrif.

7.1 Gall unrhyw un ymgyrchu o blaid canlyniad neilltuol i'r refferendwm gyda'r amod na fydd yn gwario mwy na £10,000. Rhaid i bwy bynnag sy'n gwario mwy na £10,000 gofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol fel 'cyfranogwr a ganiateir'. Dim ond y mathau isod o unigolion neu o sefydliadau all gofrestru fel cyfranogwyr a ganiateir:

- Unigolyn sy'n preswylio yn y DU neu sydd wedi cofrestru ar gofrestr etholiadol y DU.
- Plaid wleidyddol sydd wedi cofrestru yn y DU.
- Cwmni sydd wedi cofrestru yn y DU ac wedi ei ymgorffori yn yr UE ac yn cynnal busnes yn y DU.
- Undeb llafur sydd wedi cofrestru yn y DU.
- Cymdeithas adeiladu sydd wedi cofrestru yn y DU.
- Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi cofrestru yn y DU ac sydd yn cynnal busnes yn y DU.
- Cymdeithas gyfeillgar, ddiwydiannol, ddarbodus neu adeiladu sydd wedi cofrestru yn y DU.
- Cymdeithas anghorfforedig wedi ei lleoli yn y DU ac sy'n cynnal y rhan fwyaf o'i busnes neu o'i gweithgareddau eraill yn y DU.

7.2 Mae'n bosib i chi gael mynediad i'r gofrestr o gyfranogwyr a ganiateir o wefan y Comisiwn [dolen i ddilyn yn fuan].

7.3 Unwaith y byddant wedi cofrestru mae'r cyfranogwyr a ganiateir yn cael mynediad i'r gofrestr etholwyr i bwrpas ymgyrchu. Mae'r Comisiwn wedi datblygu ffurflenni i'r ymgyrchwyr eu defnyddio i bwrpas gofyn am gopïau o'r gofrestr etholwyr ac o'r gofrestr pleidleiswyr absennol [dolen i ddilyn yn fuan].

7.4 Rhaid i'r cyfranogwyr a ganiateir gofrestru rhywun i fod yn 'berson â chyfrifoldeb'.[33] Y person hwn fydd yn gyfrifol am sicrhau bod cyfranogwyr a ganiateir yn cydymffurfio gyda'r rheolau gwario a chyfraniadau o dan PPERA. Hefyd mae'r cyfranogwyr a ganiateir â'r hawl i benodi asiant refferendwm.[34]

# Asiantau refferendwm

7.5 Gall cyfranogwr a ganiateir benodi un asiant refferendwm i bob ardal bleidleisio unigol.[35] Mae'r asiantau refferendwm yn cyflawni swyddogaeth debyg i'r asiantau etholiad, ond heb y cyfrifoldeb yng nghyswllt gwario ar yr ymgyrch. Gall asiantau refferendwm benodi pobl i fod yn bresennol yn y gorsafoedd pleidleisio, ac ar achlysuron agor y pleidleisiau post a chyfrif y bleidlais.[36]

7.6 Os yw cyfranogwr a ganiateir yn dymuno penodi asiant refferendwm, mae'n rhaid i 'berson â chyfrifoldeb' y cyfranogwr a ganiateir, yn ôl y gyfraith, roddi hysbysiad o benodi'r asiant refferendwm erbyn dim hwyrach na hanner dydd ar 9 Chwefror 2011. Mae'r Prif Swyddog Cyfrif wedi cynhyrchu ffurflenni hysbysiad penodi asiant refferendwm [dolen i ddilyn yn fuan].

7.7 Os cewch hysbysiad bod cyfranogwr a ganiateir wedi penodi asiant refferendwm, mae'n gyfreithiol ofynnol i chi gyhoeddi hysbysiad yn nodi enw a chyfeiriad yr asiant refferendwm ac enw'r cyfranogwr a ganiateir cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosib.[37] Rhaid i chi gyhoeddi'r hysbysiad hwn ar 9 Chwefror 2011, cyn gynted ag y bo'n bosib ar ôl yr amser cau i dderbyn hysbysiad penodi asiantau refferendwm.

## Asiantau eraill

7.8 Gall asiantau refferendwm benodi asiantau fel arsyllwyr yng nghyswllt agor pleidleisiau post, i'r etholiad ac i'r cyfrif.

7.9 Rhaid i chi sicrhau y bydd yr holl asiantau penodedig yn derbyn copi o'r gofynion cyfrinachedd perthnasol [dolen i ddilyn yn fuan].

### Agor pleidleisiau post

7.10 Mae asiantau pleidleisiau post â'r hawl, yn ôl y gyfraith, i arsyllu ar agor pleidleisiau post a ddychwelwyd a gwirio llofnodion a dyddiadau geni ar y datganiadau pleidleisio drwy'r post.[38] Bydd raid i asiant refferendwm fod wedi rhoi enw a chyfeiriad pob asiant pleidleisiau post i chi cyn dechrau unrhyw

33 Adran 105(2), PPERA.
34 Erthygl 18(1), Gorchymyn Refferendwm CCC.
35 Erthygl 18(1), Gorchymyn Refferendwm CCC.
36 Rheol 17(1), Atodlen 3, Gorchymyn Refferendwm CCC.
37 Erthygl 18(6), Gorchymyn Refferendwm CCC.
38 Paragraffau 3(3), 16(1) a 20(4), Atodlen 2, Gorchymyn Refferendwm CCC.

sesiwn benodol y mae'r asiant pleidleisiau post yn dymuno bod ynddi.[39] Mae'n gyfreithiol ofynnol i chi roddi hysbysiad 48-awr i asiantau refferendwm o bob sesiwn agor pleidleisiau post.[40]

### Yr etholiad

7.11 Mae asiantau pleidleisio â'r hawl i fynd i orsafoedd pleidleisio i sicrhau bod trefniadau'n cael eu dilyn yn gywir ac i ddarganfod unrhyw gam-bersonadu. [41] Mae'n ofynnol dan y gyfraith i chi gael hysbysiad o bob asiant pleidleisio a benodwyd erbyn 24 Chwefror 2011[42] i sicrhau bod y penodiad mewn grym i'r etholiad. Dim ond un asiant pleidleisio ar y tro all fynd i orsaf bleidleisio ar ran asiant refferendwm unigol. [43]

### Y cyfrif

7.12 Gall asiant refferendwm benodi asiantau cyfrif i arsyllu ar y broses gyfrif leol ar ran cyfranogwr a ganiateir.[44] Yn ychwanegol, mae modd dynodi un o'r asiantau cyfrif fel asiant sydd â'r hawl i ofyn i chi am ailgyfrif.[45] Mae'n ofynnol dan y gyfraith i chi gael hysbysiad o benodi asiantau cyfrif erbyn 24 Chwefror 2011 i sicrhau bod y penodiadau mewn grym ar gyfer y cyfrif.[46]

7.13 Rydych â'r hawl yn ôl y gyfraith i gyfyngu ar nifer yr asiantau cyfrif. Fodd bynnag, bydd raid i bob asiant refferendwm benodi'r un nifer â'i gilydd ac oni bai bod amgylchiadau arbennig, ni chaiff fod yn llai na'r nifer a geir trwy rannu nifer y cynorthwywyr cyfrif gyda nifer yr asiantau refferendwm i'r ardal bleidleisio.[47]

7.14 Wrth benderfynu ar uchafswm y cynorthwywyr cyfrif i bob asiant refferendwm, bydd raid i bob asiant refferendwm, i'r graddau y bo'n bosib, gael cyfle i benodi digon o asiantau cyfrif i graffu'n llawn ac yn briodol ar y prosesau dilysu a chyfrif. Fodd bynnag, fe ddylai Swyddogion Cyfrif ystyried unrhyw oblygiadau iechyd a diogelwch, gan gynnwys y rheoliadau tân i'r lleoliad cyfrif, wrth benderfynu ar uchafswm yr asiantau cyfrif i bob asiant refferendwm.

## Briffio ymgyrchwyr

7.15 Bydd raid i chi gynnig sesiwn friffio ar y trefniadau lleol i'r refferendwm i unrhyw ymgyrchwyr refferendwm lleol a gysylltodd â chi, ac i unrhyw asiantau refferendwm a benodwyd i'ch ardal bleidleisio. Mae'r Comisiwn wedi cynhyrchu templed cyflwyniad [dolen i ddilyn yn fuan] y mae modd i chi ei ddefnyddio i'r

39 Paragraff 3(3), Atodlen 2, Gorchymyn Refferendwm CCC.
40 Paragraff 13, Atodlen 2, Gorchymyn Refferendwm CCC.
41 Rheol 17(1), Atodlen 3, Gorchymyn Refferendwm CCC.
42 Rheol 17(6), Atodlen 3, Gorchymyn Refferendwm CCC.
43 Rheol 20(4), Atodlen 3, Gorchymyn Refferendwm CCC.
44 Rheol 17(1). Atodlen 3, Gorchymyn Refferendwm CCC.
45 Rheol 17(2), Atodlen 3, Gorchymyn Refferendwm CCC.
46 Rheol 17(6), Atodlen 3, Gorchymyn Refferendwm CCC.
47 Rheol 17(4), Atodlen 3, Gorchymyn Refferendwm CCC.

diben hwn. Yn ogystal mae rhagor o wybodaeth am hyn yng nghyfarwyddyd y Comisiwn i ymgyrchwyr [dolen i ddilyn yn fuan].

# 8 Arsyllwyr achrededig a chynrychiolwyr y Comisiwn

| Cyfarwyddiadau |
| --- |
| Mewn ymateb i ymholiadau arsyllwyr, cyflwynwch iddynt y wybodaeth am leoliadau ac am amseroedd prosesau'r refferendwm. |

8.1 Mae arsyllwyr a achredwyd gan y Comisiwn â'r hawl dan y gyfraith i arsyllu:[48]

- gwaith anfon a derbyn papurau pleidleisio drwy'r post
- y bleidlais
- cyfrif y pleidleisiau.

8.2 Os gofynnir i chi, bydd raid cyflwyno i'r arsyllwyr wybodaeth am leoliad ac amser y prosesau refferendwm hyn.

8.3 Hefyd mae cynrychiolwyr y Comisiwn â'r hawl i arsyllu ar y prosesau hyn ac yn ogystal maent â'r hawl i arsyllu ar eich arferion gweithio.[49]

8.4 Nid oes raid i arsyllwyr achrededig na chynrychiolwyr y Comisiwn roddi hysbysiad ymlaen llaw yn nodi yn lle y byddant yn arsyllu, ond bydd raid iddynt fod â deunydd adnabod ffotograffig arnynt. Mae canllawiau cyflym i'r bathodynnau arsyllwyr ar wefan y Comisiwn [dolen i ddilyn yn fuan]. Os bydd unrhyw amheuaeth yn eich meddwl ynghylch statws unigolyn penodol sy'n ceisio cael mynediad i broses, mae modd i chi wirio'r gofrestr o arsyllwyr ar-lein lle rhestrir holl arsyllwyr achrededig y Comisiwn.

8.5 Mae'n gyfreithiol ofynnol i chi ddilyn y canllawiau i Swyddogion Cyfrif yng nghyswllt darparu mynediad i arsyllwyr achrededig ac i gynrychiolwyr y Comisiwn ac mae'r rhain yn Rhan C o God Ymarfer i arsyllwyr etholiadol.[50]

---

[48] Adrannau 6C-D, Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA).
[49] Adrannau 6A-B, PPERA.
[50] Adran 6F(7), PPERA.